


## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 24 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae’r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a’r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

**Gofynnir yn garedig i glercod rhannu hwn gyda'u haelodau a'u staff**

---

## Newyddion




Rydym wrth ein bodd yn rhannu bod Un Llais Cymru wedi gweld nifer record o geisiadau ac ymgysylltiad ar draws ein Gwobrau Cenedlaethol eleni. Eich cyfranogiad gweithredol chi yw'r hyn sy'n gwneud ein rhwydwaith mor fywiog. Er

mwyn cadw'r momentwm hwn i fynd, rydym am sicrhau bod eich cyngor yn cael ei gynrychioli yn ein Cynhadledd Genedlaethol ddydd Mercher 1 Gorffennaf ym Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt.

Byddai'n hyfryd cyflawni presenoldeb record eleni - rydym yn annog pob cynrychiolydd i archebu ar gyfer y diwrnod cyfan i fwynhau'r Agenda gyffrous rydym wedi'i threfnu ar eich cyfer yn ein Cynhadledd Genedlaethol ac aros am gyhoeddiadau byw Gwobrau 2026 mewn seremoni brynhawn arbennig yn syth ar ôl y cinio. Rydym wedi gwrando ar eich adborth, ac eleni rydym wedi cyfuno dwy gynhadledd wyneb yn wyneb yn un, ac mae'n addo bod yn brynhawn ysbrydoledig wrth i ni ddathlu'r enillwyr, prosiectau a mentrau cymunedol a gafodd ganmoliaeth uchel o bob cwr o Gymru.

Eleni bydd cynghorau llwyddiannus yn cael eu gwahodd i arddangos eu prosiectau arobryn yn ein Cynhadledd Arfer Arloesol ddydd Mercher 30 Medi 2026 fel rhan o'n rhaglen calendr digwyddiadau newydd. Mae'r **Agenda** ar gyfer y diwrnod ar ein gwefan: Cynhadledd Genedlaethol - Un Llais Cymru – archwiliwch ein prif siaradwyr a'n cyflwynwyr, yna gofynnwch i'ch clerc gofrestru'ch cynrychiolwyr mewn da bryd; mae'r **Ffurflen Archebu** hefyd ar gael ar yr un dudalen we (mewn fersiwn Word y gellir ei golygu).

Anfonwch eich ffurflen archebu wedi'i chwblhau ar gyfer ein Cynhadledd Genedlaethol a Seremoni Wobrwyo 2026 drwy e-bost at Tracy nawr! Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â Tracy ar **tgilmartin@unllaiscymru.cymru** neu ffoniwch y swyddfa ar **01269 595400**.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar gyfer yr hyn a fydd yn ein cynhadledd orau hyd yma.

------------------------------

## Llwybr Arfordir Cymru

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd a'r blodau'n dod i'r golwg. Gallwn ddechrau mwynhau'r awyr gynnes a'r nosweithiau wrth iddi oleuo. Croeso i'r rhifyn arbennig hwn am gerdded Llwybr Arfordir Cymru - ffyrdd ymarferol, cyfrifol a chyffrous o ddechrau archwilio'r llwybr. Beth am gychwyn eich taith gyda ni ym mis Mai - sef y mis cerdded cenedlaethol swyddogol!

**Canllaw Addysgiadol**

------------------------------

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

**MYND I’R AFAEL AG OEDRANIAETH DIGIDOL YNG NGHYMRU: DIOGELU HAWLIAU, MYNEDIAD A CHYNHWYSIAD**

**Dyddiad: Dydd Iau 02 Gorffennaf 2026**

**Amser: 10.30 – 12.00**

**Ymunwch â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac arbenigwyr eraill mewn gweminar a fydd yn canolbwyntio ar effaith OEDRANIAETH DDIGIDOL a’r camau gweithredu sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn sy’n prysur gynyddu.**

**Mae anfantais, rhagfarn a stereoteipio ar sail oedran mewn cyd-destunau digidol – sy’n digwydd ar lwyfannau sydd wedi’u dylunio’n wael neu systemau deallusrwydd artiffisial rhagfarnllyd, er enghraifft – yn creu rhwystrau mewn sawl agwedd ar fywydau pobl hŷn, gan gynnwys cael gafael ar wasanaethau, recriwtio a chyflogaeth, cyfleoedd i ddysgu, yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol hyd yn oed.**

**Yn y pen draw, mae oedraniaeth ddigidol yn golygu bod pobl hŷn mewn perygl sylweddol o gael eu heithrio’n ehangach, fel y mae** adroddiad diweddar y Comisiynydd ar y mater hwn yn ei ddangos**.**

**Dyna pam ei bod yn hanfodol ein bod yn cymryd camau gweithredu gyda’n gilydd i atal oedraniaeth ddigidol ac i fynd i'r afael â’r anghydraddoldeb peryglus sydd eisoes yn digwydd er mwyn sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu gwarchod.**

**Drwy ymuno â ni yn y weminar, byddwch yn dysgu am y canlynol:**

· **Prif ganfyddiadau adroddiad y Comisiynydd a’r camau gweithredu y mae hi’n galw amdanynt, gan gynnwys y rhan y gallwch chi ei chwarae yn ein helpu i fwrw ymlaen â hyn.**

· **Y gwahaniaeth rhwng allgáu digidol ac oedraniaeth ddigidol - a pham mae hyn yn bwysig.**

· **Effaith oedraniaeth ddigidol ar hawliau pobl hŷn**

· **Y ffyrdd y gallai safonau gwasanaeth digidol wella mynediad a phrofiad y defnyddiwr.**

· **Rôl cyfraith diogelu data yn atal rhagfarn a gwahaniaethu er mwyn sicrhau bod pobl o bob oed yn cael canlyniadau tecach.**

Y siaradwyr sydd wedi eu cadarnhau:

· **Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

· **Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3 (ymchwilwyr blaenllaw ar brosiect oedraniaeth ddigidol y Comisiynydd)**

· **Dr Mary-Ann Stephenson, Cadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

· **Dave Teague, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

· **Harriet Green, Is-adran Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, Llywodraeth Cymru**

**· Yr Athro John Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru**

**(Cofiwch, mae'n bosibl y bydd y siaradwyr yn newid)**

**Ochr yn ochr â chyfraniadau diddorol gan ein siaradwyr arbenigol, bydd y weminar hefyd yn gyfle i roi sylw manylach i faterion a datrysiadau ymarferol mewn trafodaeth banel rhyngweithiol a sesiwn holi ac ateb.**

**Drwy'r weminar, mae'r Comisiynydd yn awyddus i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am y mater hwn sy'n dod i'r amlwg ac i ysbrydoli pobl i weithredu er mwyn sicrhau cydraddoldeb digidol i bobl o bob oed.**

**Mae'r weminar yn agored i bob unigolyn sydd â diddordeb, ond mae wedi'i thargedu'n benodol at unigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

**Gobeithio gallwch chi ymuno â ni ar y diwrnod!**

Cofrestrwch yma

------------------------------

Chwarae Cymru Play Wales

Cylchlythyr

------------------------------

## Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025

A yw eich Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau ?

**Am wybodaeth pellach**

------------------------------

NESO National Energy System Operator

Efallai eich bod eisoes wedi derbyn gwybodaeth am y fforymau wyneb-yn-wyneb y mae NESO yn eu cynnal yng Nghymru ar Gynllunio Ynni Strategol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dolenni canlynol, ac mae croeso i chi rannu o fewn rhwydweithiau eich Cyngor.

[Swansea NESO Strategic Energy Plan Forum Tickets, Monday, June 22 • 9:30 AM - 4 PM | Eventbrite]

[Llandudno NESO Strategic Energy Plan Forum Tickets, Thursday, June 25 • 9:30 AM - 4 PM | Eventbrite]

------------------------------




**A allech Chi Helpu i Groesawu Teulu Affganaidd i'ch Cymuned?**

Mae teuluoedd Affganaidd yn dechrau penodau newydd ledled y DU, ac rydym yn chwilio am bobl gynnes, sy'n awyddus i'r gymuned, i helpu i wneud y croeso hwnnw'n un go iawn.

Mae Sefydliad Gulab Sorkh yn elusen yn y DU sy'n gweithio i ailsefydlu 125 o deuluoedd Affganaidd fel rhan o Gymunedau i Affganiaid Cyfnod 2, menter a ariennir gan Lywodraeth y DU. I wneud i hyn weithio, mae angen gwirfoddolwyr arnom sy'n barod i fod yn rhan o grŵp croeso bach o tua chwech o bobl sy'n cefnogi un teulu wrth iddynt ddod o hyd i'w traed. Nid yw hwn yn ymrwymiad mawr. Mae'n ymwneud â bod yn wyneb cyfeillgar, helpu rhywun i ddod i adnabod eu hardal leol, a gwneud i deulu deimlo eu bod yn perthyn yn wirioneddol.

Mae cynghorau tref a chymuned wrth wraidd eu cymunedau, ac rydym yn credu bod aelodau'r cyngor mewn sefyllfa berffaith i'n helpu i ddod o hyd i'r math o bobl sydd eu hangen ar y prosiect hwn. P'un a hoffech chi wirfoddoli eich hun, neu'n adnabod rhywun a allai, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Os ydych chi'n meddwl y gallai eich cymuned chwarae rhan, cysylltwch â ni'n uniongyrchol yn enquiries@gulabsorkh.org

Poster

------------------------------

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Digwyddiadau

------------------------------

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Bwletin

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu’r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

.......................

### Nodiadau Datblygu Ymarfer:




**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

NDY newydd wedi llwytho yn diweddar

**Nodau Datblygu Ymarfer i gyd iw gweld yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:




**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

**Cliciwch yma i llogi lle**

**Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol (AGM) – A ydych wedi adolygu eich Cynllun Hyfforddi?**

Mae Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol yn gyfle i Gynghorau adolygu ac ailfabwysiadu eu holl bolisïau — ac mae hyn bellach yn cynnwys

eich Cynllun Hyfforddi hefyd.

Felly, mae'n amser perffaith i'ch Cadeirydd newydd fynychu ein Modiwl 10: Sgiliau Cadeirio (os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes). A ydych yn annog aelodau eich Pwyllgor Cyllid i gwblhau Modiwl 6: Cyllid Llywodraeth Leol?

Gallai aelodau o'r Pwyllgor Staffio hefyd ystyried nifer o fodiwlau defnyddiol, megis:

- Y Cyngor fel Cyflogwr
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rheoli Staff yn Effeithiol

**Mater i'w ystyried!**

**Trosolwg Modiwlau**

# SWYDDI

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:




**Gweler pob swydd gwag yma**

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:Swyddi gwag | LLYW.CYMRU



## Cadwch y Dyddiad

**Cynhadledd Cenedlaethol a Seremoni Gwobrau Un Llais Cymru**

1af GORFFENNAF 2026

**Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru**

30ain MEDI 2026

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

### Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

## Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl 2026: Cefnogi Preswylwyr



**Mae'r wythnos hon (11–17 Mai) yn nodi Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ac yn tynnu sylw at effaith barhaus pwysau'r argyfwng costau byw ar les meddyliol preswylwyr.**

**Mae pwysau ariannol, ansicrwydd ac unigrwydd yn parhau i effeithio ar lawer o unigolion a theuluoedd ledled Cymru. Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn chwarae rhan bwysig wrth helpu preswylwyr i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu cysylltu ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yn lleol.**

**Mae ein tudalennau Argyfwng Costau Byw yn cynnwys adnoddau, canllawiau, astudiaethau achos ac offer ymarferol am ddim i helpu cynghorau i gefnogi eu cymunedau.**

☞ **Tudalennau Cymorth Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru**

-------------------------------

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Local Places for Nature

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

## NEWYDDION

Bioamrywiaeth Un Llais Cymru

One Voice Wales Biodiversity



**Pecynnau Bioamrywiaeth 2026-2027**

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer rownd gyntaf ein pecynnau Bioamrywiaeth newydd.

Cliciwch yma i gael gwybod mwy.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**

**Rownd 1 - 31 Mai 2026**

**Y Pum Colofn Adfer Natur – Cyfres Gweminar**

Ymunwch â ni am gyfres o pump gweminar 1 awr o hyd bob dydd Mawrth ym mis Mehefin am 11am.




| | |
|---|---|
| **2.6.26** | **Colofn 1 - Creu a Gwarchod Cynefinoedd** |
| **9.6.26** | **Colofn 2 - Darparu porthiant** |
| **16.6.26** | **Colofn 3 - Darparu Dŵr** |
| **23.6.26** | **Colofn 4 - Creu cysylltiadau** |
| **30.6.26** | **Colofn 5 - Lledaenu'r gair** |

Darganfyddwch fwy yma



**Chwiliad Mawr ar y Dôl**

Chwilio am ffyrdd o helpu natur yn eich ardal?

Mae'r Chwiliad Mawr ar y Dôl yn brosiect yn y DU, Iwerddon ac Ynys y Sianel a ddatblygwyd gan Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin i godi ymwybyddiaeth a diddordeb mewn glaswelltiroedd, ac i gofnodi rhywogaethau planhigion. Gallwch gymryd rhan drwy gynnal chwiliadau am blanhigion ar laswelltiroedd gerllaw.

Ewch i wefan y Chwiliad Mawr ar y Dôl am ragor o wybodaeth.

---


**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF



Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite